



CYFLAWNI **TEGWCH** A RHAGORIAETH YN Y MAES **ADDYSG** A **GWELL LLES** I BAWB

EQUITY AND **EXCELLENCE** IN **EDUCATION** AND **ENHANCED WELLBEING** FOR ALL

**ADRODDIAD YMATEB I'R
YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I
EHANGU DARPARIAETH
DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU
PRIF FFRWD AR GYFER ANGHENION
DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA
CYNON TAF**

Adroddiad Ymgynghori

Cynnig Cyffredinol: Ehangu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Prif Ffrwd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf.

1. Nod yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Ei nod yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng 30 Medi a 15 Tachwedd 2024 rhwng yr holl randdeiliaid a phartion â diddordeb sydd wedi'u rhestru isod.

2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig ei anfon i'r randdeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd: www.rctcbc.gov.uk/ymgynghoriadauysgolion

- Cyrff llywodraethu, rhieni/gwarcheidwaid a staff yr ysgolion perthnasol
- Cyrff llywodraethu, rhieni/gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd yn nalgylch yr ysgol uwchradd arfaethedig
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Menter Iaith
- Mudiad Meithrin
- Flourish Cymru
- Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Estyn
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf Morgannwg
- Undebau Llafur Athrawon a Staff Cymorth
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- SNAP Cymru

3. Ynglŷn â beth roedden ni wedi ymgynghori?

Roedd y cynigion a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn cynnwys:

Datblygu darpariaethau dosbarthiadau cynnal dysgu newydd.

Cynigiwyd bod y dosbarthiadau cynnal dysgu canlynol yn cael eu sefydlu o fis Medi 2025:

- **Cynnig 1:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Cwmaman.
- **Cynnig 2:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Penynglyn.
- **Cynnig 3:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun
- **Cynnig 4:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

Adleoli darpariaeth dosbarth cynnal dysgu er mwyn sicrhau darpariaeth traws-gyfnodol mewn adeilad ysgol hygyrch ar un safle.

Cynigiwyd adleoli'r dosbarth canlynol o fis Medi 2025 ymlaen:

- **Cynnig 5:** Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun.

4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd copïau electronig o'r ddogfen ymgynghori gyda'r ddolen i'r ffurflen ymgynghori eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 2 drosodd. Anfonwyd copïau papur at bob un a wnaeth gais am un. Cafodd cyfarfodydd ymgynghori eu cynnal ar gyfer staff, rhieni a disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio. Mae manylion a dyddiadau'r cyfarfodydd wedi'u hatodi a'u cynnwys yn Atodiad 1a. Mae nodiadau crynodeb yr ystod o achlysuron ymgynghori wedi'u nodi yn Atodiad 1b. Mae'r rhain yn cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu lle bo'n briodol.

5. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Nodir bod ymateb cyfyngedig wedi bod i'r broses ymgynghori statudol yma; 25 o holiaduron wedi'u cwblhau, a 3 llythyr/e-bost. Cafodd 1 ddeiseb ei chyflwyno hefyd gyda

434 o lofnodwyr. Mae Tabl 1 isod yn nodi nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i bob elfen o'r cynnig.

Tabl 1: Ymatebion i'r adliniad arfaethedig o ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn Rhondda Cynon Taf

Cynnig	Cyfathrebu wedi'i Dderbyn			Natur yr Ymateb		
	Holiadur Ar-lein	Llythyr / Neges e-bost	Deiseb	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr
Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar (Ymyrraeth) ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol, yn Ysgol Gynradd Cwmaman.	24	0	0	20	1	3
Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar (Ymyrraeth) ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol, yn Ysgol Gynradd Penyreglyn.	24	0	0	19	1	4
Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun	24	0	0	19	3	2
Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.	24	0	0	20	1	3
Symud disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun.	25	3	1 (434 o lofnodwyr)	15	9	3

**Sylwer bod pob holiadur a gwblhawyd wedi rhoi cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ar bob un o'r 5 cynnig*

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly, yn rhan o geisio barn ar y cynnig mewn perthynas â threfniadaeth yr ysgolion,

roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiwn ynghylch cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, gan ofyn 'Sut byddai cynnig y Cyngor yn effeithio arnoch chi?' Dywedodd pawb a ymatebodd i'r cwestiwn yma y byddai effaith gadarnhaol neu ddim effaith arnyn nhw o ganlyniad i weithredu'r cynnig.

Yn ogystal â hyn, roedd arolwg yr ymgynghoriad, yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, hefyd yn cynnwys cwestiynau pellach i gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor a oedd yn gofyn a fyddai modd i'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol) ac a ydyn nhw mewn unrhyw ffordd, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Cafodd y cwestiwn 'Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol' ei ofyn hefyd. Cododd un ymatebwr ymholiad mewn perthynas â chynyddu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg. Mynegodd un ymatebwr bryder ynghylch y posibilrwydd y byddai ei blentyn yn llithro'n ôl o ran ei gaffaeliad o'r Gymraeg oherwydd y bwriad i adleoli ei Ddosbarth Cynnal Dysgu. Dywedodd yr ymatebwyr eraill (23) y byddai effaith gadarnhaol neu ddim effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i weithredu'r cynigion.

6. Crynodeb o'r Prif Themâu a Godwyd ac Ymateb yr Awdurdod Lleol

Yn unol â'r Cod, mae crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law yn y tabl isod. Cafodd ymateb ei ddarparu i unrhyw faterion a oedd yn codi o'r ymatebion yma, gan egluro'r rhesymau i gefnogi'r cynnig, ble y bo hynny'n addas. Mae'r themâu allweddol sydd wedi ymddangos o'r gwaith dadansoddi yma fel a ganlyn:

- **Cynnig 1:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Cwmaman.

Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â'r cynnig yma. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cydnabod yr angen am ddarpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r cynnig i agor darpariaeth arbenigol newydd wedi'i groesawu.

- **Cynnig 2:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Penyreglyn.

Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â'r cynnig yma. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cydnabod yr angen am ddarpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r cynnig i agor darpariaeth arbenigol newydd wedi'i groesawu.

- **Cynnig 3:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 gydag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun.

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i sylwadau/materion a godwyd
Byddai modd gosod y dosbarth yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun.	Cafodd pob goblygiad posibl y cynigion eu hystyried cyn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Mae swyddogion o'r farn mai'r opsiwn a gyflwynwyd yw'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau i ehangu'r ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu yn Rhondda Cynon Taf.
Darpariaeth Estynedig	Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cydnabod yr angen am ddarpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r cynnig i agor darpariaeth arbenigol newydd wedi'i groesawu.
Pryderon ynghylch rheoli traffig	O ganlyniad i'r niferoedd cymharol isel o ran disgyblion a fydd yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, does dim pryderon o ran lle i gerbydau ychwanegol. Bydd yr ysgolion yn sicrhau bod eu cynlluniau rheoli traffig yn cael eu haddasu a bydd cyngor a chefnogaeth ar gael gan Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ôl yr angen.

- **Cynnig 4:** Un Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â'r cynnig yma. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cydnabod yr angen am ddarpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r cynnig i agor darpariaeth arbenigol newydd wedi'i groesawu.

- **Cynnig 5:** Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd.

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i sylwadau/materion a godwyd
Bydd symud disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun yn amharu ar sefydlogrwydd a threfn arferol y disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar hyn o bryd.	Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai gan y newid arfaethedig yn y ddarpariaeth rai goblygiadau ar gyfer nifer fach o ddisgyblion (5 disgybl ar hyn o bryd, sef 2 ym mlwyddyn, 1 ym mlwyddyn 5, a 2 ym mlwyddyn 4 ym mis Medi 2025).
Dim ond blwyddyn fyddai gan ddisgyblion sydd ym Mlwyddyn 5 ar hyn o bryd yn yr ysgol newydd cyn	Mae'r holl asesiadau effaith gofynnol wedi'u cynnal, ac mae'n anochel y bydd ail-alinio'r dosbarthiadau cynnal dysgu yn achosi

<p>iddyn nhw bontio i'r ysgol uwchradd, gan gynyddu'r straen.</p> <p>Effaith negyddol adleoli ar ddisgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig - pryderon am effaith emosiynol ac addysgol adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar ddisgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.</p> <p>Eiriolaeth dros gadw'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu bresennol yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a lleihau aflonyddwch i blant sydd eisoes yn ffynnu yno.</p>	<p>rhywfaint o aflonyddwch ac ansicrwydd i rieni a disgyblion am gyfnod o amser, er bod profiad o adliniadau blaenorol y dosbarthiadau cynnal dysgu wedi bod yn gadarnhaol. Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn darparu cymorth i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl. Bydd hyn yn golygu cydweithio rhwng staff presennol y dosbarthiadau cynnal dysgu, staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau bod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o drosglwyddo a diwallu anghenion addysgol ac emosiynol/lles disgyblion.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod lleihau'r nifer o weithau mae'n rhaid i ddisgyblion symud ysgolion er lles gorau disgyblion yn y tymor hir. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod y bydd rhywfaint o aflonyddwch tymor byr i nifer fach o ddisgyblion presennol yn ystod y cyfnod pontio.</p>
<p>Byddai symud ysgol yn gwahanu disgyblion oddi wrth ffrindiau, staff maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw, a'u cymuned ysgol bresennol.</p> <p>Mae athrawon a rhieni yn mynegi cysylltiadau emosiynol dwfn â'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun, gan ei ddisgrifio fel amgylchedd diogel, meithringar a chynhwysol.</p> <p>Mae'r Dosbarth Cynnal Dysgu presennol wedi galluogi disgyblion i ffynnu o dan staff profiadol a strwythur cymorth profedig.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn falch iawn o dderbyn adborth mor gadarnhaol ar y ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu yn Ysgol Gynradd Gymuned Pen-y-waun. Mae'n amlwg bod y dosbarth yn cael ei ystyried yn rhan o gymuned ehangach yr ysgol, mae staff a disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi ac mae rhieni wrth eu bodd gyda'r cynnydd mae'r disgyblion yn gwneud.</p> <p>Serch hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod lleihau'r nifer o weithau mae'n rhaid i ddisgyblion symud ysgolion er lles gorau disgyblion yn y tymor hir. Rydyn ni'n cydnabod y bydd rhywfaint o aflonyddwch tymor byr i nifer fach o ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio.</p> <p>Rhagwelir y bydd staff presennol y Dosbarth Cynnal Dysgu yn symud gyda'r disgyblion y byddan nhw'n gweithio gyda nhw gan eu bod yn cael eu cyflogi'n ganolog gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant. Bydd hyn yn sicrhau bod yna barhad yn y staffio a chymorth i ddisgyblion i gefnogi eu darpariaeth addysgol a lles. Bydd y dosbarth cynnal dysgu yn parhau i gael ei fonitro ar y cyd gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol trwy ei brotocol sicrhau</p>

	<p>ansawdd. Ni chodwyd unrhyw faterion gyda'r Awdurdod Lleol yn ystod proses ail-leoli'r ddarpariaeth yn y gorffennol, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei chydnabod fel ysgol gynhwysol gan yr Awdurdod Lleol a Chonsortium Canolbarth y De.</p> <p>Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn darparu cymorth i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl. Bydd hyn yn golygu cydweithio rhwng staff presennol y dosbarthiadau cynnal dysgu, staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau bod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o drosglwyddo a diwallu anghenion addysgol ac emosiynol/lles disgyblion.</p>
<p>Byddai pellteroedd teithio ychwanegol i ddisgyblion yn rhoi straen ar deuluoedd ac yn creu heriau logistaidd ac ariannol.</p>	<p>Fydd hyn ddim yn cael effaith sylweddol ar amser teithio disgyblion. Bydd nifer a dosbarthiad daearyddol y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig yn golygu na fydd yn rhaid i ddisgyblion sydd wedi'u lleoli yn eu darpariaeth arbenigol fwyaf addas deithio pellteroedd afresymol i gael mynediad i ddarpariaeth. Bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael ei benderfynu yn unol â pholisi Teithio gan Ddisgyblion y Cyngor, fel sy'n wir ar gyfer disgyblion prif ffrwd a'r rhai sy'n defnyddio darpariaethau arbenigol.</p>
<p>Dydy adleoli'r dosbarth i adeilad mwy newydd ar gyfer mân welliannau (e.e. toiledau gwell) ddim yn gyfiawnhad digonol.</p>	<p>Cafodd pob goblygiad posibl y cynigion eu hystyried cyn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Mae swyddogion o'r farn mai'r opsiwn a gyflwynwyd yw'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau i adlinio'r ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn Rhondda Cynon Taf.</p> <p>Bydd yr adleoliad arfaethedig yn sicrhau y bydd disgyblion yn cael mynediad at ddarpariaeth pob oed mewn amgylchedd ffisegol gwell sy'n arbennig o addas ar gyfer anghenion disgyblion sy'n cael mynediad i Ddosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig.</p>

	Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei chydabod fel ysgol gynhwysol gan yr Awdurdod Lleol a Chonsortiw m Canolbarth y De.
Heriau i deuluoedd â mwy nag un plentyn mewn gwahanol ysgolion os bydd yr adleoli yn mynd yn ei flaen, gan arwain at anawsterau logistaidd a hwyrni posibl.	Rydyn ni'n cydnabod y gall fod yn heriol bod â phlant mewn gwahanol ysgolion. Mae hyn yn wir yn achos llawer o deuluoedd, a hynny mewn darpariaeth addysg brif ffrwd ac arbenigol. Cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn unol â'r gofynion statudol. Bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael ei benderfynu yn unol â pholisi Teithio gan Ddisgyblion y Cyngor.
Awgrym i ganiatáu i ddisgyblion presennol gwblhau eu haddysg yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun a chyfeirio disgyblion newydd i Ysgol Gynradd Hirwaun.	Mae'r sylw wedi'i nodi. Cafodd pob goblygiad posibl y cynigion eu hystyried cyn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Mae swyddogion o'r farn mai'r opsiwn a gyflwynwyd yw'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau i ehangu'r ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu yn Rhondda Cynon Taf.

Codwyd y themâu allweddol a ganlyn ar draws yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad:

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i sylwadau/materion a godwyd
Cafodd cwestiynau eu codi gan 2 ymatebwr ynghylch a fydd y ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn cynyddu ac a fydd adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn effeithio ar ddarpariaeth y Gymraeg o fewn y cwricwlwm.	Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a Deddf ALNET 2018, mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu'n barhaus ddigonolrwydd ei Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac yn gweithio'n rhagweithiol tuag at ddatblygu system ADY gwbl ddwyieithog dros amser. Mae'r Gymraeg yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru y mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio ag ef.
Argymhelliad i gyflwyno'r newidiadau arfaethedig fesul cam dros nifer o flynyddoedd yn hytrach na'u gweithredu'n sydyn, er mwyn osgoi aflonyddwch.	Mae'n hollbwysig gweithredu'r newidiadau arfaethedig cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod digon o ddarpariaeth arbenigol ar gael i ddisgyblion fel sydd i'w weld yn y dadansoddiad data cadarn.
Roedd yr adborth yn gadarnhaol ynghylch cynyddu'r ddarpariaeth	Roedd yn braf gweld bod cynyddu'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn

Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf	cael ei ystyried yn gadarnhaol ym mhob cyfarfod â rhanddeiliaid.
Mynegwyd pryder ynghylch y Cyngor yn arbed arian drwy'r cynigion hyn ac yn dewis yr opsiwn rhataf.	Bydd y cynigion yn cynyddu'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu drwy greu 4 Dosbarth Cynnal Dysgu newydd a gwella'r amgylchedd ffisegol sydd ar gael i ddisgyblion sy'n defnyddio lleoliadau arbenigol. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad hirdymor sylweddol gan y Cyngor.

7. Ymateb Estyn i'r cynnig gan Rondda Cynon Taf ynghylch dosbarthiadau cynnal dysgu a fydd yn dod i rym o fis Medi 2025.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 - Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi'i ddarparu'n llawn yn Atodiad 1c. Does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi ymateb i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig. Mae'r ymateb yn adrodd y canlynol fel crynodeb **'Mae'r cynnig manwl hwn yn amlinellu cynlluniau RhCT yn glir i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth i rai o'r disgyblion mwyaf bregus ag angen dysgu ychwanegol ar draws yr awdurdod lleol. Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o leiaf gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal.'**

Yn unol â'r Cod, mae'r rhannau o'r ymateb sy'n gofyn am eglurdeb pellach wedi'u nodi yn y tabl isod:

Sylw Estyn
<i>"Mae RhCT wedi cyflwyno rhai o'r anfanteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r camau lliniarol i fynd i'r afael a'r rhain. Mae rhai o'r anfanteision a godwyd yn cynnwys y bydd rhaid i rai disgyblion sy'n mynd i Ddosbarth Cynnal Dysgu Penywaun a staff sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd Penywaun ar hyn o bryd deithio ymhellach i'r safle newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Fodd bynnag, er bod y cynnig yn datgan y bydd RhCT yn talu costau teithio ychwanegol, bach iawn o wybodaeth sydd yn y cynnig sy'n amlygu'r effaith bosibl y gallai teithio ychwanegol ei chael ar les disgyblion bregus.</i>
Eglurhad
Yng ngoleuni gofynion y Ddeddf ALNET byddai cadw'r sefyllfa sydd ohoni yn golygu na fyddai Rhondda Cynon Taf yn cyflawni ei dyletswydd statudol i adolygu digonolrwydd ei darpariaeth ADY. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r Cyngor yn cwrdd ag anghenion plant a phobl ifainc ag ADY, bydd rhagor o bwysau ar

rieni/gwarcheidwaid, cynnydd mewn tribiwnlysoedd ADY a chynnydd yn y gost o osod disgyblion mewn darpariaethau arbenigol y tu allan i'r sir.

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun 1.6 milltir i ffwrdd o Ysgol Gynradd Pen-y-waun, fodd bynnag fydd hyn ddim yn cael effaith sylweddol ar amser teithio disgyblion. Bydd nifer a dosbarthiad daearyddol y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig yn golygu na fydd yn rhaid i ddisgyblion sydd wedi'u lleoli yn eu darpariaeth arbenigol fwyaf addas deithio pellteroedd afresymol i gael mynediad i ddarpariaeth. Bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael ei benderfynu yn unol â pholisi Teithio gan Ddisgyblion y Cyngor, fel sy'n wir ar gyfer disgyblion prif ffrwd a'r rhai sy'n defnyddio darpariaethau arbenigol.

Sylw Estyn

“Er bod y cynnig yn datgan y bydd RhCT yn gweithio gyda rhieni a cynhalwyr/gofalwyr i roi cynlluniau pontio trylwyr ar waith i symud disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun, bach iawn o fanylion sydd am beth fydd y cynlluniau pontio hyn yn ei gynnwys.”

Eglurhad

Ar adeg y dyddiad gweithredu arfaethedig ym mis Medi 2025, yn seiliedig ar y ffigyrau derbyn presennol, mae'n bosibl y bydd y symud yn effeithio ar gyfanswm o 5 disgybl, a bydd 2 ohonyn nhw ym mlwyddyn 6. Er mwyn lliniaru risgiau, bydd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei fabwysiadu i gefnogi'r symud.

Bydd cynlluniau pontio yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Bydd y cynlluniau yma'n cael eu llunio ar y cyd â rhieni a staff ac yn cynnwys cymorth ychwanegol gan staff arbenigol y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant. Mae'n anochel y bydd ail-alinio'r dosbarthiadau cynnal dysgu yn achosi rhywfaint o aflonyddwch ac ansicrwydd i rieni a disgyblion am gyfnod o amser, er bod profiad o adliniadau blaenorol y dosbarthiadau cynnal dysgu wedi bod yn gadarnhaol.

Sylw Estyn

“Mae RhCT yn amlinellu costau ariannol y cynnig yn fras; fodd bynnag, bach iawn o fanylion sy'n cael eu rhoi.”

Eglurhad

Rhodddwyd manylion ynghylch goblygiadau ariannol y cynnig i'r Cabinet ar 16 Medi. Dyma rai o'r manylion:

Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau, lle bo modd, manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y galw am leoliadau arbenigol trwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

Mae ysgolion uwchradd sy'n cynnal Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn cael eu hariannu drwy'r Cyngor ar gyfer 1 athro arbenigol, 2 gynorthwy-ydd cynnal/cymorth dysgu ynghyd â chyllid ar

gyfer llwyth gwaith ac adnoddau ar gost o tua £133k y dosbarth. Mae ysgolion cynradd sy'n cynnal Dosbarthiadau Cynnal Dysgu y Blynnyddoedd Cynnar yn cael eu hariannu ar gyfer 1 athro, 1 cynorthwy-ydd cynnal/cymorth dysgu ynghyd â chyllid ar gyfer llwyth gwaith ac adnoddau ar gost o tua £104k. Mae ysgolion cynradd sy'n cynnal darpariaeth Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn cael eu hariannu ar gyfer 1 athro, 2 gynorthwydd cymorth dysgu ynghyd â chyllid ar gyfer llwyth gwaith ac adnoddau ar gost o tua £133k. Cost ychwanegol y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion disgyblion ADY yw oddeutu £474k, a bydd yn cael ei ymgorffori yn y diweddariadau i Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Bydd creu ac adleoli'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn arwain at gost cludiant yn unol â Pholisi Teithio gan Ddisgyblion y Cyngor, fodd bynnag, mae'r cynnydd yma yn y gost yn cael ei weld fel anghenraid er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwyaf bregus Rhondda Cynon Taf. Does dim modd mesur costau ar hyn o bryd gan fod lleoliadau yn dibynnu ar gyfeiriadau cartref disgyblion. Serch hynny, o ystyried y bydd cynnydd net yn nifer y darpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, mae'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol a'i ymgorffori yn y diweddariadau i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

8. Asesiad o'r Ymgynghoriad

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'r cynigion wedi cael eu hailystyried ac mae'r asesiadau effaith wedi'u diweddaru ac mae'r materion a ganlyn wedi'u hailasesu:

- Effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safon yr addysg;
- Yr effaith debygol ar y gymuned;
- Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol; ac
- Yr effaith debygol ar y Gymraeg.

Ar ôl ystyriaeth bellach, mae'r cynigion yn parhau i fod yn briodol ac felly does dim diwygiadau wedi'u gwneud. Medi 2025 yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer yr holl gynigion o hyd.

9. Casgliad

Bydd y cynigion i adlinio'r ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn sicrhau bod Rhondda Cynon Taf wedi ymgymryd â'i ddyletswydd statudol o dan Ddeddf ALNET (2018) i adolygu trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn y fwrdeistref sirol ac wedi nodi'r camau angenrheidiol i sicrhau digonolrwydd ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol sydd angen lleoliad arbenigol.

Bydd y cynigion yn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd y dosbarthiadau yn cael eu hadleoli i ddau safle gwell sydd wedi cael budd o raglen foderneiddio Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, argymhellir bod yr Aelodau'n cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori amgaeëdig ar unwaith a chytuno i roi cymeradwyaeth i swyddogion gyhoeddi'r Hysbysiadau Statudol priodol i symud ymlaen â'r holl gynigion fel a ganlyn:

Cynnig 1: Sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar (Ymyrraeth) ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol, yn Ysgol Gynradd Cwmaman.

Cynnig 2: Sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar (Ymyrraeth) ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol, yn Ysgol Gynradd Penyreglyn.

Cynnig 3: Sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun.

Cynnig 4: Sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

Cynnig 5: Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun, i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd.

Amserlen Sesiynau Ymgynghori

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp – Disgyblion/Staff/Rhieni	Dyddiad
Ysgol Gyfun Aberpennar	Cyngor Ysgol	4 Tachwedd 2024
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Cwmaman	Cyngor Ysgol	5 Tachwedd 2024
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Pen-y-waun	Cyngor Ysgol	6 Tachwedd 2024
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Hirwaun	Cyngor Ysgol	7 Tachwedd 2024
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Penyreglyn	Cyngor Ysgol	13 Tachwedd 2024
	Staff	
	Rhieni	

Nodiadau Achlysuron Ymgynghori

Achlysuron Ymgynghori 2024 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gyfun Aberpennar		
Lleoliad:	Ysgol Gyfun Aberpennar		
Dyddiad:	04/11/2024	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	51
Nifer y Disgyblion:	8	Nifer y Rhieni:	3
Math o gyfarfod:	Cyngor Ysgol, Staff/Corff Llywodraethu, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr:	1
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Ceri Jones (CJ), Lisa Carter (LC), Iwan Griffiths (IG), Helen Jenkins (HJ).		
Cyngor Ysgol			
<ul style="list-style-type: none"> • Roedd 2 ddisgybl o Flwyddyn 8, un disgybl o Flwyddyn 9, 3 disgybl o Flwyddyn 10, a 2 ddisgybl o Flwyddyn 11 yn bresennol yn yr achlysur i randdeiliaid y Cyngor Ysgol. • Cafwyd cyflwyniad i egluro'r gwasanaeth a chynnig trosolwg o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu ac Ysgolion Arbennig yn Rhondda Cynon Taf. • Rhannwyd gwybodaeth gefndir ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a hyrwyddo cynhwysiant. • Darparwyd amlinelliad o'r cynigion a'r broses gysylltiedig. • Eglurwyd dynodiad Anawsterau Dysgu Cymhleth. • Cyflwynwyd gwybodaeth am Banel Lleoli Rhondda Cynon Taf a chyfansoddiad y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn Ysgol Gyfun Aberpennar. • Roedd Cyngor yr Ysgol o'r farn fod y dosbarth newydd yn syniad da gan y byddai'n cefnogi rhagor o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i addysg addas. • Cytunodd y Cyngor Ysgol y byddai'r dosbarth newydd yn rhoi cyfleoedd i ragor o ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol megis yr Eisteddfod, prom Blwyddyn 11, a mabolgampau. • Cododd un aelod bryderon am fwlio posibl gan eraill tuag at ddisgyblion yn y dosbarth. Cydnabuwyd hyn fel posibilrwydd, ond pwysleisiwyd pwysigrwydd mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a hyrwyddo cynhwysiant. • Eglurwyd y gallai disgyblion ddod o'r tu allan i Aberpennar a byddai cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu. 			

- Disgrifiwyd strwythur a gweithrediad posibl y Dosbarth Cynnal Dysgu, gan gynnwys sut y gallai disgyblion ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd gyda'u hathrawon neu gynorthwyr.
- Roedd Cyngor yr Ysgol yn teimlo'n gadarnhaol am y posibilrwydd y byddai Dosbarth Cynnal Dysgu yn cefnogi disgyblion eraill.
- Gofynnodd un aelod a fyddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer eu TGAU. Eglurwyd y byddai modd i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu ddewis pynciau TGAU a mynychu gwersi TGAU prif ffrwd tra hefyd yn cael cymorth gan staff y Dosbarth Cynnal Dysgu.
- Nododd aelod y byddai cael Cynorthwy-ydd Cynnal/Cymorth Dysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn fuddiol, gan y byddai modd iddyn nhw helpu eraill. Cydnabuwyd hyn fel posibilrwydd.
- Eglurwyd y gallai disgyblion yn y dosbarth newydd hefyd gael mynediad i gwricwlwm ehangach, a allai wedyn fod yn hygyrch i rai disgyblion prif ffrwd pe bai'r dosbarth yn cael ei sefydlu.
- Mynegwyd pryder y byddai angen i'r dosbarth newydd fod yn hwyl ac ennyn diddordeb i atal problemau o ran ymddygiad. Cytunodd aelodau eraill o Gyngor yr Ysgol â'r pwynt yma.
- Trafodwyd y gallai rhai disgyblion â Chynlluniau Datblygu Unigol nad ydynt yn defnyddio'r Dosbarth Cynnal Dysgu hefyd elwa o'r dosbarth newydd.
- Soniwyd am yr enghraifft bod gan Ysgol Gyfun Aberdâr Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu.
- Pe bai'r Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn cael ei sefydlu, nodwyd y byddai staff ychwanegol ag arbenigedd mewn ADY ar gael i gefnogi'r Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol a staff eraill yn yr ysgol.

Staff / Corff Llywodraethu

- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- Eglurwyd bod staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu cyflogi'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol, a disgrifiwyd cyfansoddiad y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig.
- Ategwyd bod gan bob plentyn mewn Dosbarth Cynnal Dysgu Gynlluniau Datblygu Unigol sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol, dan arweiniad athro dosbarth y Dosbarth Cynnal Dysgu.
- **“Pa mor bell fydd y disgyblion yn teithio a sut byddan nhw'n cyrraedd yno?”** Eglurwyd y gallai disgyblion o fewn dalgylch Cwm Cynon gael eu gosod yn y Dosbarth Cynnal Dysgu, er bod eithriadau. Nod y Panel Lleoli yw lleoli disgyblion yn y ddarpariaeth arbenigol fwyaf addas yn agos at eu cartref. Byddai disgyblion yn cael eu cludo mewn tacsï oni bai eu bod yn byw'n ddigon agos i'r ysgol yn unol â Pholisi Teithio gan Ddisgyblion yr Awdurdod Lleol.
- **"A fydd y disgyblion newydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol yn flaenorol?"** Eglurwyd y byddai'r disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn rhai ag Anawsterau Dysgu Cymhleth, nid y rhai â phroblemau

ymddygiad. Nodwyd nad oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 sydd wedi eu gwahardd yn barhaol.

- Eglurwyd y byddai modd i ddisgyblion drosglwyddo i'r Dosbarth Cynnal Dysgu o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu'r Cyfnod Cynradd neu'r brif ffrwd wrth symud i Flwyddyn 7. Mae modd i ddisgyblion hefyd drosglwyddo o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill neu ysgolion prif ffrwd y Cyfnod Uwchradd, yn seiliedig ar eu hanghenion. Caiff pob lleoliad ei atgyfeirio gan ysgolion drwy broses y Panel Lleoli.
- **“A fyddai modd i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu gael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd?”** Cadarnhawyd bod disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu hintegreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd, lle bo modd. Rhannwyd enghreifftiau o ddisgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu yn ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd ychydig funudau ar ôl i'r wers ddechrau a gadael ychydig funudau'n gynnar i osgoi aflonyddwch. Yn gyffredinol, mae disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael gwersi rhifedd a llythrennedd yn y Dosbarth Cynnal Dysgu, ond byddai eu presenoldeb mewn gwersi prif ffrwd yn seiliedig ar anghenion unigol. Rhannwyd enghraifft o Ddiwrnod Mabolgampau a oedd yn dangos integreiddio i gymuned ehangach yr ysgol.
- **“A fyddai Cynorthwy-ydd Cynnal/Cymorth Dysgu yn mynd gyda'r disgyblion i'r dosbarthiadau prif ffrwd?”** Eglurwyd y byddai modd i Gynorthwywyr fynd gyda disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu lle bo angen, ond efallai na fydd angen cymorth ar rai disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd a bod modd iddyn nhw fynychu'n annibynnol. Disgrifiwyd manteision posibl y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer y gymuned ysgol ehangach, gan gynnwys mynediad i gymwysterau fel ASDAN ar gyfer disgyblion prif ffrwd.
- Gofynnodd un a oedd yn bresennol am oblygiadau ariannol cynnal Dosbarth Cynnal Dysgu. Eglurwyd bod costau staffio a chostau y pen ar gyfer ysgolion sy'n cynnal Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu darparu'n ganolog.
- O ran ystafelloedd ac addasiadau ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu, dywedwyd y byddai unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu hariannu'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol. Dydy'r ystafell benodol ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu ddim wedi'i nodi eto, ond bydd yr ysgol yn cydweithio â'r Awdurdod Lleol i bennu'r gofod mwyaf addas.
- **“Pwy sydd â dyletswyddau bugeiliol ar gyfer disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu?”** Eglurwyd mai athro'r Dosbarth Cynnal Dysgu sydd â'r prif gyfrifoldeb, er y bydd ymagwedd gydweithredol gyda'r staff prif ffrwd. Rhannwyd enghraifft o ysgol arall a oedd yn dangos disgyblion yn cofrestru gyda'u grŵp blwyddyn prif ffrwd cyn mynychu'r Dosbarth Cynnal Dysgu. Byddai integreiddio i'r ysgol yn digwydd yn raddol.
- Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â sut y byddai disgyblion yn cael eu gosod yn y dosbarth, esboniwyd y byddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu nodi drwy'r broses Panel Lleoli, sy'n asesu a oes modd diwallu anghenion plentyn orau mewn darpariaeth prif ffrwd neu Ddosbarth Cynnal Dysgu.
- O ran hyfforddiant ar gyfer staff prif ffrwd, pwysleisiwyd bod yr Awdurdod Lleol yn darparu cymorth i uwchsgilio staff prif ffrwd, gydag enghreifftiau o integreiddio

Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn llwyddiannus mewn ysgolion eraill. Bydd cymorth barhaus yn cael ei ddarparu i uwchsgilio staff.

- **“A fydd modd disgyblu disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn yr un modd â disgyblion prif ffrwd?”** Cadarnhawyd y bydd modd i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu gael eu disgyblu, ond mae'n bwysig ystyried eu hanghenion unigol. Dylid teilwra ymagweddau at ddisgyblaeth i bob plentyn er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chefnogaeth.
- **“All y dosbarth ddim cael ei lleoli yn Ysgol Gyfun Aberdâr neu Ysgol Uwchradd Pontypridd?”** Cadarnhawyd bod Ysgol Gyfun Aberdâr ac Ysgol Bro Taf eisoes yn cynnal Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.
- **“Pa fath o wisg fyddan nhw'n ei gwisgo?”** Cadarnhawyd y byddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn gwisgo'r wisg ysgol safonol, yr un fath â'u cyfoedion prif ffrwd.
- Cafodd rhagor o fanylion ei ddarparu am broses ymgynghori'r Dosbarth Cynnal Dysgu.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Rhieni

- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- Disgrifiwyd sut y byddai modd i ddisgyblion o'r tu allan i ddalgylch Aberpennar fynychu'r dosbarth.
- Disgrifiwyd cyfansoddiad y Dosbarth Cynnal Dysgu, ynghyd â sut y byddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu hintegreiddio a'u cynnwys mewn gweithgareddau gyda'u cyfoedion prif ffrwd.
- Trafodwyd rhagor o fanylion am y broses ymgynghori a'r amserlenni dan sylw.
- Gofynnodd un a oedd yn bresennol am gael Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer eu plentyn a chytunodd i drafod y broses ymhellach ar ôl y cyfarfod.
- **“Faint o ysgolion sydd yn y dalgylch ar gyfer y dosbarth newydd yma?”** Eglurwyd bod y dalgylch yn cael ei arwain gan ardal gyda disgyblion yn cael mynediad i'w Dosbarth Cynnal Dysgu addas agosaf. Yn gyffredinol bydd disgyblion yn cael eu lleoli o fewn 40 munud o amser teithio yn seiliedig ar bolisi cludiant Rhondda Cynon Taf.
- Dywedwyd bod gan Rondda Cynon Taf Ddosbarth Cynnal Dysgu CA3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yng Nghwm Rhondda a Thaf-elái ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig yn creu Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth yng Nghwm Cynon, gan fynd i'r afael â'r angen a nodwyd am ddarpariaeth arbenigol ychwanegol yn yr ardal trwy ddadansoddiad data.
- **“A yw'r broses leoli wedi'i threialu a'i phrofi?”** Eglurwyd bod y Broses Leoli yn cael ei defnyddio ar gyfer pob un o'r 48 o leoliadau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ac Ysgolion Arbennig presennol.

- Trafododd rhai rhieni anghenion eu plentyn unigol.
- Cytunodd pawb a oedd yn bresennol fod angen rhagor o gymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Tynnodd un a oedd yn bresennol sylw at bwysigrwydd cymorth arbenigol mewn ysgolion cyfun i integreiddio disgyblion ag anghenion yn well i amgylcheddau priif ffrwd. Fodd bynnag, nodwyd fod modd i integreiddio fod yn heriol gan fod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn aml yn cydnabod eu gwahaniaethau oddi wrth blant eraill.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Achlysuron Ymgynghori 2024 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Cwmaman		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Cwmaman		
Dyddiad:	05/11/2024	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	7
Nifer y Disgyblion:	12	Nifer y Rhieni:	8
Math o gyfarfod:	Cyngor Ysgol, Staff/Corff Llywodraethu, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr:	3
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Kate Hill (KH), Lisa Carter (LC), Iwan Griffiths (IG), Karen Pearson (KP).		
Cyngor Ysgol			
<ul style="list-style-type: none"> • Roedd 4 disgybl o Flwyddyn 6, 2 ddisgybl o Flwyddyn 5, 2 ddisgybl o Flwyddyn 4, 2 ddisgybl o Flwyddyn 3 a 2 ddisgybl o Flwyddyn 2 yn bresennol yn yr achlysur i randdeiliaid Cyngor yr Ysgol. • Darparwyd trosolwg o'r gwasanaeth a'r cynnig sy'n benodol i Ysgol Gynradd Cwmaman. • Roedd y drafodaeth yn ymdrin â sut y byddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu newydd yn integreiddio o fewn yr ysgol, gan gynnwys trefniadau teithio ar gyfer disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu. • Roedd Cyngor yr Ysgol o'r farn bod y cynnig yn syniad da. Dywedodd un aelod ei fod yn syniad da oherwydd mae modd iddyn nhw ddysgu rhai pethau sy'n eu helpu. Dywedodd yr aelod hefyd fod y dosbarth llai yn dda oherwydd ei fod yn rhoi mwy o sylw i'r disgyblion. • Roedd un aelod yn teimlo y byddai'r cynnig "yn gwneud ein hysgol yn wahanol ac yn gwneud iddi sefyll allan." • Trafododd dau aelod sut y byddai modd i'r disgyblion wneud ffrindiau gyda disgyblion eraill a gwneud ffrindiau gydag eraill sydd â'r un anabledau. • Roedd un aelod yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael "effaith dda ar deuluoedd fel bod dim angen iddyn nhw anfon 2 blentyn i wahanol ysgolion." Eglurwyd y broses dalgylch, gan nodi y byddai modd i hyn fod yn wir yn achos rhai teuluoedd ond nid ym mhob achos. • "Fyddai'r disgyblion newydd yn bwyta yn yr un neuadd ginio?" Eglurwyd y byddai hyn yn dibynnu ar anghenion y disgybl; efallai y bydd modd i rai disgyblion 			

wneud hynny ar unwaith, tra bydd angen i eraill fagu hyder yn gyntaf. Ychwanegwyd efallai nad oedd disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu newydd wedi bod mewn ysgol o'r blaen - ar y dechrau, fe allai fod yn frawychus iddyn nhw. Mae rhai yn aros yn y dosbarth i fwyta eu cinio; mae'n dibynnu ar eu hanghenion.

- **“Fyddan nhw'n cymryd rhan yn y gymuned eco?”** Eglurwyd bod hyn yn dibynnu ar y disgyblion – efallai na fydd rhai yn gallu cyfathrebu ar lafar ond byddan nhw'n cael eu cynnwys lle bo modd.
- **“A fyddai ganddyn nhw eu maes chwarae eu hunain?”** Eglurwyd y byddai ganddyn nhw ardal eu hunain ond efallai y byddan nhw'n ymuno â dosbarthiadau eraill yn ystod amser chwarae. Yr ysgol fyddai'n penderfynu ar hyn.
- Darparwyd amlinelliad o'r broses ymgynghori.
- **“Beth sy'n digwydd iddyn nhw wrth iddyn nhw fynd yn hŷn?”** Eglurwyd bod y dosbarth yn cefnogi disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu pan maen nhw'n ifanc iawn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gydag athro dosbarth y Dosbarth Cynnal Dysgu a'r teulu i benderfynu ar y lle gorau i'r disgybl symud ymlaen iddo – efallai y bydd yn aros mewn dosbarthiadau prif ffrwd, yn symud i Ddosbarth Cynnal Dysgu gwahanol, neu'n mynychu Ysgol Arbennig.
- Holwyd sut y byddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu gwersi. Dywedwyd y byddai eu gwersi yn debyg i'r dosbarth derbyn a'r dosbarth meithrin, gan ganolbwyntio ar ddysgu seiliedig ar chwarae, sy'n cyd-fynd â dosbarthiadau Meithrin a Derbyn prif ffrwd.
- **“Oes modd i lysgenhadon yr ysgol helpu yn y Dosbarth Cynnal Dysgu?”** Dywedwyd y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu gymysgu â dosbarthiadau prif ffrwd cymaint â phosibl.
- Dywedodd un aelod bod modd i ddisgyblion ddysgu a chwarae ar yr un pryd. Cafodd y cysyniad yma'i ailddatgan.
- **“Oes modd iddyn nhw fynd ar y bws ysgol gyda ni ar gyfer teithiau ysgol?”** Dywedwyd bod y disgyblion yn ifanc iawn. Os ydyn nhw'n gallu mynd ar deithiau, dylid eu cynnwys. Rhoddwyd enghreifftiau o sut mae modd gweithio o gwmpas hyn, megis teithiau gwahanol.
- **“Pan fyddan nhw'n mynd yn hŷn, ydyn nhw'n gallu mynd ar yr iard fawr?”** Ategwyd y dylid cynnwys disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu gyda disgyblion prif ffrwd, er efallai y byddan nhw'n defnyddio iardiau ar wahân yn seiliedig ar oedran.
- Holwyd a fyddai modd i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu fwyta gyda'r disgyblion prif ffrwd. Cytunwyd y byddai modd iddyn nhw wneud hynny.
- **“Beth os oes gan y plant awtistiaeth a'u bod yn cwmpo?”** Dywedwyd y byddai'r un broses ag unrhyw ddisgybl arall - byddan nhw'n cael yr un driniaeth.
- Cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â chymhorthion corfforol i gynorthwyo disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu i ddeall eu gweithgareddau mewn gwersi a thu allan i addysg, megis ailgylchu.
- **“Pan maen nhw'n rhy hen i fod yn y dosbarth, pan fyddan nhw'n mynd a fydd rhywun arall yn dod?”** Cynghorwyd pan fydd lle yn y dosbarth, bydd yn cael ei lenwi gan eraill sydd ei angen.

- **“Os ydyn nhw'n gwella, a fyddan nhw'n mynd i ddosbarth arferol?”** Eglurwyd y gallai disgyblion symud i ddosbarth prif ffrwd, symud i Ddosbarth Cynnal Dysgu gwahanol, neu fynychu Ysgol Arbennig yn dibynnu ar eu hanghenion.
- **“A fydden nhw i gyd yn symud allan o'r dosbarth ar yr un pryd?”** Eglurwyd bod disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu yn symud pan fyddan nhw'n barod; mae rhai yn aros am amser byr, ac eraill yn aros yn hwy.

Staff / Corff Llywodraethu

- Cyflwynwyd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- Chafodd dim gwrthwynebiadau eu codi, ond trafodwyd ymholiadau logistaidd:
- **“A fydd asesiadau'n cael eu cynnal i bennu lleoliad yr ystafell ddosbarth?”** Dywedwyd wrth y staff na fyddai hyn yn cael ei asesu nes bod y broses ymgynghori wedi dod i ben. Ni ragwelir unrhyw faterion, ac mae disgwyl i amserlenni gael eu bodloni.
- **“A fydd llywodraethwyr/Penaethiaid yn cael lleisio'u barn am lleoliad yr ystafell ddosbarth?”** Eglurwyd y bydd proses gydweithredol yn cael ei gynnal, a chyfeiriwyd at enghreifftiau lle mae ysgolion wedi nodi ystafelloedd dosbarth sy'n bodloni gofynion y Blynyddoedd Cynnar, megis yn agos at doiledau a manau awyr agored.
- **“Os nad oes ystafelloedd dosbarth addas ar gael, a fyddan nhw'n cael eu datblygu?”** Bydd addasiadau angenrheidiol yn cael eu cwblhau yn ystod sefydlu'r dosbarth.
- Mynegwyd pryderon y bydd angen amser i glirio ystafelloedd dosbarth. Serch hynny, atgoffwyd bod yn rhaid i'r broses ddilyn y protocol priodol, felly does dim modd cymryd camau rhagataliol.
- **“A fydd yr Awdurdod Lleol yn cyflogi staff y Dosbarth Cynnal Dysgu, a faint o Gynorthwyr Addysgu sydd eu hangen?”** Cafodd y staff/corff llywodraethu eu hysbysu bod y ddarpariaeth gychwynnol yn cynnwys un Cynorthwy-ydd Cynnal/Cymorth Dysgu, gyda'r posibilrwydd o ychwanegu ail. Bydd recriwtio yn broses gydweithredol rhwng yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Fyddai staff ychwanegol y Dosbarth Cynnal Dysgu ddim yn effeithio ar staff presennol yr ysgol.
- Trafodwyd cyllid ar gyfer staff cyflenwi. Eglurwyd bod cyllid yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol, mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb am drefnu gweithwyr cyflenwi pan fo angen. Rhannwyd enghreifftiau o weithwyr cyflenwi o asiantaeth yn gweithio'n llwyddiannus.
- Rhoddwyd sylw i bryderon ynghylch dod o hyd i weithwyr cyflenwi priodol yn ystod absenoldeb staff.
- Cadarnhawyd natur amser llawn y ddarpariaeth.
- Codwyd cwestiwn ynghylch goruchwyliaeth amser cinio. Awgrymwyd y byddai trefniadau megis egwylliau cinio ar adegau gwahanol i staff a disgyblion yn bwyta yn yr ystafell ddosbarth yn lleihau aflonyddwch. Rhaid i ysgolion gynllunio ar gyfer goruchwyliaeth ddigonol.

- Cadarnhawyd y bydd staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn alinio â diwrnodau HMS ysgolion, gyda sesiynau hyfforddi canolog yn achlysurol ym mis Medi.
- Codwyd ymholiadau ynghylch trafndiaeth. Bydd materion yn ymwneud â thrafnidiaeth yn cael eu rheoli drwy'r gweithdrefnau presennol. Bydd amserau dechrau a gorffen dosbarthiadau yn cael eu haddasu er mwyn lleihau aflonyddwch.
- **“Posibilrwydd o ddosbarth y Cyfnod Cynradd?”** Cadarnhawyd nad oes cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer dosbarth y Cyfnod Cynradd. Bydd dosbarth y Blynyddoedd Cynnar yn gweithredu fel canolfan asesu, gyda lleoliadau o bosibl yn symud ymlaen i Ysgolion Arbennig.
- Codwyd ymholiad ynghylch ariannu'r Dosbarth Cynnal Dysgu newydd. Cadarnhawyd bod cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail capasiti yn hytrach na chofrestriad gweithredol, gan sicrhau sefydlogrwydd ni waeth beth fo nifer y disgyblion.
- Codwyd cwestiwn ynghylch y broses recriwtio ac a fyddai modd i staff heb hyfforddiant sy'n seiliedig ar ADY wneud cais. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai prosesau recriwtio yn dechrau ar ôl cymeradwyo'r cynnig, gyda swyddi athrawon yn cael eu hysbysebu yn gyntaf, ac yna Cynorthwyr Cynnal/Cymorth Dysgu. Mae cyfleoedd hyfforddi i athrawon sy'n trosglwyddo i swyddi'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn cynnwys Makaton a PECS, a gefnogir gan rwydwaith Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol. Mae athrawon profiadol yn cael eu ffafrio, ond tynnwyd sylw at gyfleoedd hyfforddi ar gyfer y sawl sydd â photensial. Mae staffio a chyllid y Dosbarth Cynnal Dysgu ar wahân i niferoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ysgolion ac yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Rhieni

- Roedd cyfanswm o 11 yn bresennol, gan gynnwys 3 rhiant lywodraethwr.
- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- Holodd un o'r sawl a oedd yn bresennol pwy fyddai'n addysgu yn y Dosbarth Cynnal Dysgu a mynegodd bryderon yn seiliedig ar brofiadau blaenorol o ran athrawon nad oedden nhw'n gymwys i reoli Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd (ADHD). Sicrhawyd y byddai gan y Dosbarth Cynnal Dysgu staff gyda hyfforddiant ychwanegol i gwrdd â dynodiad ADY y dosbarth ac anghenion disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu.
- **“A fyddai disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn mynd i'r brif ffrwd?”** Eglurwyd y byddai'r dosbarth arfaethedig ar gyfer 8-10 o ddisgyblion y Blynyddoedd Cynnar, a allai fod yn y Dosbarth Cynnal Dysgu am gyfnod byr ac efallai na fyddan nhw wedi mynychu'r ysgol o'r blaen. Unwaith y bydd disgyblion yn barod i symud ymlaen, byddai'r Panel Lleoli yn dyrannu lleoedd yn y

ddarpariaeth fwyaf addas — gallai hyn fod yn ddosbarth prif ffrwd, Dosbarth Cynnal Dysgu arall, neu'n Ysgol Arbennig.

- Holodd aelod a fyddai'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar gael i ddisgyblion yn yr ysgol gyda Chynlluniau Datblygu Unigol presennol. Eglurwyd, os oes gan ddisgyblion yn yr ysgol Gynllun Datblygu Unigol, y byddai'n cael ei fonitro a'i adolygu. Os bydd yr ysgol yn nodi angen am ddarpariaeth arbenigol, bydd Cais Ystyried Lleoliad (PCR) yn cael ei gyflwyno i'r panel lleoli i'w adolygu.
- Nodwyd y byddai modd i staff arbenigol y Dosbarth Cynnal Dysgu gefnogi staff eraill ar draws yr ysgol o ran arbenigedd. Eglurwyd ymhellach y byddai disgyblion yn dechrau gyda Chynllun Datblygu Unigol yn yr ysgol yn y lle cyntaf, a phe byddai cymorth ychwanegol gan y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn dal i fethu â bodloni eu hanghenion, byddai lleoliad mewn darpariaeth arbenigol yn cael ei ystyried. Mae gan bob disgybl mewn Dosbarth Cynnal Dysgu Gynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol dan arweiniad athro'r Dosbarth Cynnal Dysgu.
- **“A fydd gyda nhw ddarpariaeth ar ôl y Dosbarth?”** Eglurwyd y byddai modd i ddisgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar symud i ddosbarth prif ffrwd, i Ddosbarth Cynnal Dysgu gwahanol, neu i Ysgol Arbennig. Yn ogystal, byddai'r Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn darparu lleoliadau ar draws ardal Cwm Cynon, nid dim ond i'r rhai yn nalgylch Cwmaman.
- Mynegodd pob aelod gefnogaeth i'r cynigion ac ni chodwyd unrhyw bryderon.
- Cytunodd pawb a oedd yn bresennol bod ysgolion yn elwa o sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Canmolwyd y Cyngor Ysgol am eu hagwedd gadarnhaol tuag at y cynnig a'u hymrwymiad i gynhwysiant.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Achlysuron Ymgynghori 2024 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Pen-y-waun		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Pen-y-waun		
Dyddiad:	06/11/2024	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	13
Nifer y Disgyblion:	9	Nifer y Rhieni:	9
Math o gyfarfod:	Cyngor Ysgol, Staff/Corff Llywodraethu, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr:	3
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Ceri Jones (CJ), Lisa Carter (LC), Iwan Griffiths (IG), Rachel Williams (RW).		

Cyngor Ysgol

- Roedd 4 disgybl o Flwyddyn 6, 2 ddisgybl o Flwyddyn 5, 1 disgybl o Flwyddyn 4 a 2 ddisgybl o Flwyddyn 3 yn bresennol yn y cyfarfod.
- Darparwyd trosolwg o'r gwasanaeth, gan egluro'r rhesymeg dros y cynigion a'r broses ymgynghori.
- Cafodd y cynigion eu hamlinellu, yn benodol yr un sy'n effeithio ar Ysgol Gynradd Pen-y-waun, a manteision symud y dosbarth i Ysgol Gynradd Hirwaun.
- Tynnwyd sylw at y canlynol: Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn elwa o amgylchedd dysgu modern sy'n cyd-fynd â moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae adeilad Ysgol Gynradd Hirwaun yn hygyrch i ddisgyblion ag ADY ac anabledau corfforol.
- Dywedodd aelod "Fydd hi ddim yn hawdd i ddisgyblion Ysgol Gynradd Pen-y-waun symud o'r ysgol nac i ddisgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun symud yma." Eglurwyd na fyddai unrhyw ddisgyblion o Ysgol Gynradd Hirwaun yn symud. Yn lle hynny, mae'r cynnig yn ymwneud ag adleoli disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu presennol o Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun. Amlinellwyd pwysigrwydd sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl a rhoddwyd trosolwg o enghreifftiau blaenorol o ddisgyblion yn symud ysgolion yn llwyddiannus. Bydd cymorth i rieni a disgyblion yn cael ei ddarparu i helpu hwyluso'r cyfnod pontio.
- Gofynnodd y Cyngor Ysgol, "**Pam mae'n rhaid iddo symud? Mae lle i ddosbarth arall yma.**" Mewn ymateb, cydnabuwyd er bod gan Ysgol Gynradd Pen-y-waun gapasiti dros ben, mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun ystafell hylendid eisoes, gan leihau'r amser a chostau sy'n gysylltiedig â chynnal addasiadau. Cafodd ffactorau daearyddol eu hystyried i ddosbarthu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn fwy cyfartal ar draws y cymoedd ac mae'r symud yn cyd-fynd â'r angen i sicrhau digon o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu erbyn mis Medi.

- **Rhannodd aelodau o Gyngor yr Ysgol eu barn:**
- “Mae'r Uned Anhwylderau Cyfathrebu (CDU) yn bwysig oherwydd mae'r holl blant wedi setlo ac yn hapus.”
- “Mae athrawon bob amser yn garedig wrth bob disgybl.”
- “Mae'r disgyblion yn barod i helpu.”
- “Symudais o Ysgol Gynradd y Rhigos ac roeddwn i'n ei chael hi'n anodd symud ond rydw i wedi setlo i mewn nawr ac yn hapus yn yr ysgol.”
- “Mae'r plant wedi bod yma drwy gydol eu hoes, dydyn nhw ddim yn nabod neb yn Ysgol Gynradd Hirwaun, yn haws i bobl o Ysgol Gynradd Pen-y-waun.”
- “Mae'r Athro yn helpu ar ddyletswydd ac yn y ffreutur.”
- “Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun.”
- “Dydw i ddim eisiau cael gwared ar eu Huned Anhwylderau Cyfathrebu iau nhw. A fyddai modd cael un i fabanod fan hyn?”
- “Mae'r Uned Anhwylderau Cyfathrebu eisoes yn rhan o'r ysgol.”
- “Mae pobl yn yr Uned Anhwylderau Cyfathrebu yn ei hoffi yma ac nid yn Ysgol Gynradd Hirwaun – efallai bod plant yno'n ddrwg.”
- Rhoddwyd sicrwydd bod Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gynhwysol a diogel gyda systemau cymorth a fyddai'n sicrhau bod disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn hapus ac wedi ymgartrefu. Byddai'r disgyblion yn symud gyda'i gilydd gan ddarparu cynefindra, a chyfleoedd i wneud ffrindiau newydd yn yr ysgol newydd.

Staff / Corff Llywodraethu

- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- Tynnwyd sylw at yr ymdrechion i gynyddu nifer y darpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu pob oed a gwella'r ddarpariaeth gyffredinol yn Rhondda Cynon Taf.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hatgoffa o ddyddiad cau'r ymgynghoriad a phwysigrwydd adborth wrth lunio deilliannau.
- Ategwyd y bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am leoli disgyblion y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ac na fydd y prosesau presennol yn newid.
- Holodd staff pam na fyddai modd rhoi darpariaeth ychwanegol ar waith ar y safle presennol er mwyn osgoi tarfu ar blant.
- Codwyd pryderon ynghylch dau ddisgybl ym Mlwyddyn 5 yn gorfod symud ysgol ddwywaith yn gyflym yn olynol.
- Nododd aelod o staff fod brodyr a chwiorydd wedi'u hadleoli i'r un ysgol yn ddiweddar gan eu rhieni, gan dynnu sylw at ei hamgylchedd cynhwysol a'r berthynas sefydledig â staff. Mewn ymateb, nodwyd bod penderfyniadau wedi eu seilio ar ddsbarthiad daearyddol ar draws ardaloedd, diwallu'r galw, a sicrhau bod cyfleusterau (e.e. ystafelloedd hylendid ac ardaloedd synhwyraidd) yn eu lle. Tynnwyd sylw at enghreifftiau blaenorol o ddisgyblion yn symud ysgolion a fu'n llwyddiannus er gwaethaf pryderon cychwynnol. Mae'r cynnig i adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn seiliedig ar ddiwallu anghenion disgyblion mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

- Roedd staff yn cwestiynu addasrwydd cyfleusterau yn Ysgol Gynradd Hirwaun o gymharu â'r safle presennol. Eglurwyd bod y gosodiad yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnwys ystafelloedd synhwyraidd, ardaloedd awyr agored ar wahân ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnod Cynradd, a threfniadau toiled sy'n arbennig o addas ar gyfer anghenion y disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth.
- Rhoddwyd sylw i bryderon ynghylch cynnal annibyniaeth disgyblion a sicrhau preifatrwydd mewn cyfleusterau newydd. Rhoddwyd sicrwydd bod amgylcheddau wedi'u cynllunio i adeiladu ar annibyniaeth disgyblion wrth fodloni anghenion arwyddocaol.
- Cododd aelod o staff bryderon ynghylch y posibilrwydd o golli aelod allweddol o staff, sydd hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant disgyblion prif ffrwd yn rhan o'r Uwch Dîm Arwain. Mewn ymateb, pwysleisiwyd bod athrawon y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu cyflogi'n ganolog gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a bod yn rhaid parhau i ganolbwyntio ar anghenion disgyblion.
- Mynegodd athro ansicrwydd ynghylch pa mor gynhwysol fyddai Ysgol Gynradd Hirwaun, o ystyried ei chyfrifoldeb newydd am ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu. Rhoddwyd sicrwydd bod gan Ysgol Gynradd Hirwaun ethos cynhwysol ac na fyddai disgyblion yn cael eu gwahanu oddi wrth gymuned ehangach yr ysgol.
- Pwysleisiwyd yr angen am gapasiti ychwanegol ar gyfer darpariaeth Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig y Cyfnod Sylfaen, gan olygu bod angen mesurau rhagweithiol i sefydlu darpariaeth bellach. Mae'r Awdurdod Lleol yn dadansoddi data yn barhaus ynghylch digonolrwydd ei ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.
- Eglurwyd y broses ymgynghori, gan annog rhannu adborth drwy'r cod QR ac ar-lein.
- **“Oni fethodd un o'r cynigion yn ddiweddar?”** Nodwyd bod y rhan fwyaf o gynigion blaenorol wedi bod yn llwyddiannus, er bod rhai wedi'u diwygio ar sail adborth. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd y cynnig yn derfynol, a bydd yr holl sylwadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i'w ystyried gan y Cabinet.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Rhieni

- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- Darparwyd y rhesymeg a ganlyn ar gyfer newidiadau i'r Dosbarth Cynnal Dysgu: Lleihau'r nifer o weithiau mae'n rhaid i ddisgyblion symud ysgol (e.e. o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 a thu hwnt), caniatáu i ddisgyblion gael mynediad i ddarpariaeth pob oed cynradd heb fod angen symud i ysgol arall, a rhaid i ddarpariaeth fod yn ei lle erbyn Medi 2025 i fodloni'r galw, gyda'r penderfyniad i'w wneud gan y Cabinet.
- **“A fydd y plant yn symud?”** Cadarnhawyd y byddai'r plant yn symud, ac y byddai staff sy'n cael eu cyflogi'n ganolog yn cael eu hadleoli i safle newydd y Dosbarth Cynnal Dysgu.

- Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith ar ddisgyblion ac a fyddai'r staffio'n ddigonol.
- Holodd rhieni pam nad oedd modd i'r dosbarth aros yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun. Eglurwyd mai un rheswm oedd bod gan Ysgol Gynradd Hirwaun ystafell hylendid, sy'n lleihau'r angen am addasiadau drud, ac mae ganddi le ar gyfer dau Ddosbarth Cynnal Dysgu. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi elwa o fuddsoddiadau Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan ddarparu amgylchedd dysgu modern.
- Holodd rhieni a fyddai modd ychwanegu ystafell hylendid yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun. Eglurwyd bod yr ystafell hylendid yn Ysgol Gynradd Hirwaun eisoes yn ei lle a fyddai'n cefnogi'r angen am gapasiti ychwanegol ar unwaith ym mis Medi 2025.
- Mynegodd rhieni bryder bod cyfnodau pontio cyson yn tarfu ar ddisgyblion, yn enwedig y rhai ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, gan nodi enghreifftiau o atchweliad a newidiadau ymddygiad.
- Rhannodd rhieni bryderon ynghylch staff newydd yn deall anghenion penodol eu plant. Rhoddwyd sicrwydd y byddai cynlluniau pontio cadarn yn cynnwys cydweithio rhwng staff ac ymweliadau â'r ysgol newydd. Nodwyd bod staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu cyflogi'n ganolog gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ac y byddai'r swyddi'n cael eu hadleoli i Ysgol Gynradd Hirwaun.
- Codwyd pryderon ynghylch logisteg ar gyfer teuluoedd â phlant mewn gwahanol ysgolion. Cadarnhawyd y byddai trefniadau trafndiaeth yn ystyried dalgyloedd ac yn sicrhau dilyniant.
- Dadleuodd rhieni, er y gallai'r newidiadau fod o fudd i ddisgyblion y dyfodol, y byddai'r garfan bresennol yn wynebu aflonyddwch sylweddol. Cydnabuwyd y pryderon hyn, gan nodi bod pryderon tebyg wedi'u codi gan rieni yn ystod ymgynghoriad blaenorol a fu'n llwyddiannus iawn wedi hynny.
- Dyma resymau pellach a roddwyd dros y dyraniad: Byddai'r ystafell ddosbarth newydd yn cael ei sefydlu gyda mynediad uniongyrchol i ofod awyr agored a thoiledau wedi'u neilltuo ar gyfer disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn unig. Byddai ystafell synhwyraidd ar gael hefyd, a byddai mesurau i fynd i'r afael â phryderon sŵn (e.e. cyfleusterau toiled tawelach) yn cael eu gweithredu.
- **“Pam nad oes modd i'r disgyblion aros yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun nes iddyn nhw drosglwyddo i'r ysgol uwchradd?”** Eglurwyd y byddai hyn yn cynyddu costau'n sylweddol ac yn achosi oedi cyn diwallu'r angen a nodwyd.
- **“A gafodd Ysgol Gynradd Pen-y-waun ei hasesu'n llawn o ran dichonoldeb?”** Nodwyd bod safleoedd Ysgol Gynradd Pen-y-waun ac Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'u hystyried ar gyfer addasrwydd mewn cydweithrediad â Charfan Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan ddod i'r casgliad mai Ysgol Gynradd Hirwaun oedd yr opsiwn mwyaf addas.
- **“A fydd staff Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael eu hyfforddi ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig?”** Rhoddwyd sicrwydd bod Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gynhwysol gyda staff wedi derbyn hyfforddiant mewn cefnogi disgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.
- **“A yw Ysgol Gynradd Pen-y-waun yn debygol o gau?”** Cadarnhawyd nad oes unrhyw gynlluniau i gau Ysgol Gynradd Pen-y-waun.
- Eglurwyd y byddai'r holl adborth yn cael ei adolygu gan y Cabinet cyn unrhyw benderfyniad terfynol.

- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Achlysuron Ymgynghori 2024 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Hirwaun		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Hirwaun		
Dyddiad:	07/11/2024	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	8
Nifer y Disgyblion:	33	Nifer y Rhieni:	1
Math o gyfarfod:	Cyngor Ysgol, Staff/Corff Llywodraethu, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr:	2
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Kate Hill (KH), Lisa Carter (LC), Iwan Griffiths (IG), Rachel Williams (RW).		

Cyngor Ysgol

- Roedd 13 disgybl o Flwyddyn 6, 7 disgybl o Flwyddyn 5, 5 disgybl o Flwyddyn 4, 3 disgybl o Flwyddyn 3, 3 disgybl o Flwyddyn 2, a 2 ddisgybl o Flwyddyn 1 yn bresennol yn y cyfarfod.
- Amlinellwyd y cynigion, a darparwyd gwybodaeth am y broses ymgynghori statudol.
- Trafodwyd y cynigion yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Hirwaun yn fanwl, gan gynnwys manteision cael 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig, gan ganiatáu i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu aros yn yr un ysgol rhwng Blwyddyn 2 a 3 heb fod angen symud ysgol.
- O'r 33 aelod, roedd 30 o'r farn bod y cynigion yn syniad da, tra bod 3 yn ansicr.
- Roedd un aelod yn teimlo fod y cynnig sy'n benodol i Ysgol Gynradd Hirwaun yn syniad da gan ddweud o ran awtistiaeth bod "yr athrawon yn dda gyda phlant ac yn gallu helpu." Eglurwyd y byddai mwy o staff penodol i'r Dosbarth Cynnal Dysgu a allai hefyd gefnogi pawb ar draws yr ysgol gyda chyngor ac arweiniad.
- Roedd aelod arall yn teimlo fod y cynigion yn gadarnhaol gan fod yr ysgol yn amgylchedd tawel a fyddai'n helpu gyda sgiliau cymdeithasol disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n mynychu.
- Awgrymodd un aelod y gallai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu ddysgu mewn modd gwahanol a chynigiodd ystafell i ddisgyblion ag anabledau er mwyn cefnogi eu dysgu.
- Roedd aelod arall yn teimlo fod y cynigion yn dda oherwydd "Dylai pawb gael yr hawl i addysg – hyd yn oed os ydyn nhw'n anabl." Cafodd y teimlad yma'i ategu gan ddau aelod ychwanegol.
- Dywedodd aelod fod y cynigion yn fuddiol oherwydd "Os oes gyda chi anghenion, mae'n dda cael help hyd yn oed os nad ydych chi ei eisiau." Fe dynnon nhw sylw hefyd at y ffaith fod gan yr ysgol ystafell ffynnu lle mae modd i ddisgyblion ofyn am gymorth.

- Soniodd aelod, "Gallai'r disgyblion newydd gymysgu gyda disgyblion y tu allan a gwneud rhagor o ffrindiau." Cefnogwyd y syniad yma, gydag eglurhad y byddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu newydd yn rhan o'r ysgol, yn gwisgo'r un wisg ysgol, ac yn cymryd rhan ym mhob gweithgaredd pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn.
- Nododd aelod efallai nad yw pobl ag awtistiaeth yn hoffi synau ac y gallai cael disgyblion ag awtistiaeth yn yr ysgol helpu eraill i ddeall awtistiaeth yn well.
- Cynigiodd Cyngor yr Ysgol y gallai disgyblion eraill yn yr ysgol gyflwyno disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu i weddill yr ysgol.
- Holodd un aelod beth oedd y ddogfen ar y bwrdd a chafodd wybod mai fersiynau sy'n Addas i Blant o Ddogfen Ymgynghori'r Dosbarth Cynnal Dysgu oedd y rhain, a chafodd y disgyblion eu hannog i'w darllen.
- **"Ble bydd yr ystafell ddosbarth?"** Eglurwyd nad oedd y lleoliad wedi ei benderfynu eto gan fod y cynigion yn dal yn y cyfnod cynnig, a byddai cydweithio pellach yn digwydd os byddan nhw'n cael eu cymeradwyo.
- Rhoddodd aelod wybod i'r garfan Mynediad a Chynhwysiant, "Mae gyda ni athro ELSA yn yr ysgol a all helpu pawb ag awtistiaeth."
- Awgrymodd aelod y dylai ysgolion ystyried dewisiadau bwyd penodol disgyblion ag anableddau oherwydd sensitifrwyd i wead. Cydnabuwyd bod y syniad yma'n bwysig i'w ystyried.
- Awgrymodd aelod arall y dylid cyflwyno "mainc cyfeillio" ar yr iard i helpu disgyblion sy'n teimlo'n ofidus i ddod o hyd i rywun i chwarae ag ef. Byddai angen cynrychiolwyr i sicrhau bod pob disgybl yn deall sut i ddefnyddio'r fainc cyfeillio.
- Cynigiwyd syniad y gallai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu fynd â theganau ffidlan i'r iard i'w helpu i setlo a chael mwy o hwyl.
- Rhoddodd rhai o aelodau o Gyngor yr Ysgol ddiolch i'r garfan Mynediad a Chynhwysiant am drafod y pwnc gyda nhw.

Staff / Corff Llywodraethu

- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses. Cyfeiriwyd at gyfnod pontio llwyddiannus y Dosbarth Cynnal Dysgu Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig o Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i Ysgol Gynradd Perthcelyn fel cysail ar gyfer y cynigion.
- Darparwyd trosolwg o'r broses ymgynghori statudol, gan gynnwys yr amserlenni a'r canllawiau cysylltiedig.
- Eglurwyd, gan fod y cynigion yn dal yn y cam ymgynghori, nad yw'n bosibl eto cadarnhau union leoliad y dosbarth yn unol â gofynion statudol.
- Cafodd y capasiti disgwylidig canlynol eu cadarnhau ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu: Cyfnod Sylfaen: 8 disgybl, Cyfnod Cynradd: 10 disgybl
- Nodwyd efallai na fyddai'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn cyrraedd ei gapasiti llawn ar unwaith, a rhagwelir y bydd disgyblion Ysgol Gynradd Pen-y-waun yn symud ym mis Medi 2025.
- **"Sut bydd y cynigion yn effeithio ar y niferoedd ar y gofrestr neu gapasiti'r ysgol?"** Eglurwyd na fyddai capasiti yn cael ei leihau. Mae rhagamcanion yn rhoi

cyfrif am anghenion y dyfodol, a byddai maint capasiti'r ysgol yn cael ei adrodd ochr yn ochr â darpariaethau'r Dosbarth Cynnal Dysgu.

- **"A gafodd datblygiadau tai lleol eu hystyried yn y cynnig?"** Cadarnhawyd bod y Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif yn asesu datblygiadau tai ac yn ystyried bod Ysgol Gynradd Hirwaun yn addas ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig.
- **"A fyddai darpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu hadolygu ymhen 5-10 mlynedd?"** Cadarnhawyd bod lleoliadau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig os bydd carfanau mwy yn dod i'r amlwg. Mae Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cynnal gwaith mapio i nodi anghenion a dosbarthiad ar draws Cwm Cynon.
- Eglurwyd na fyddai'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu newydd yn effeithio'n sylweddol ar niferoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun. Nod y newidiadau arfaethedig i'r Dosbarth Cynnal Dysgu yw lleihau'r nifer o weithau mae'n rhaid i ddisgyblion ADY symud ysgolion, gan sicrhau bod eu profiad yn cyd-fynd â disgyblion prif ffrwd, sydd fel arfer yn cael dau gyfnod pontio yn unig.
- Cadarnhawyd y byddai swyddi staff o Ddosbarth Cynnal Dysgu Ysgol Gynradd Pen-y-waun yn symud gyda'r disgyblion. Caiff staff eu contractio'n ganolog ond fe'u penodir ar y cyd â'r Pennaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd integreiddio staff y Dosbarth Cynnal Dysgu i gymuned yr ysgol i sicrhau cynhwysiant.
- Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai cynhwysiant yn cael ei deilwra i anghenion pob disgybl y Dosbarth Cynnal Dysgu ond yn annog rhyngweithio gyda disgyblion prif ffrwd ble bo'n briodol.
- Ategwyd y byddai'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn gweithredu yn rhan o'r ysgol, yn hytrach na bod yn endid ar wahân.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Rhieni

- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses. Cadarnhawyd bod y cynigion yn cynnwys dau Ddosbarth Cynnal Dysgu, ac mae un ohonyn nhw eisoes yn bodoli ac y bydd yn cael ei adleoli.
- Ategwyd bod cael lleoliad mewn Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei reoli drwy'r Panel Lleoli, sy'n cael ei oruchwylio gan yr Awdurdod Lleol.
- Eglurwyd mai dalgylch cyffredinol y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yw Cwm Cynon uchaf. Bydd cludiant ar gyfer disgyblion cymwys yn cyd-fynd â'r Polisi Cludiant i'r Ysgol.
- **"A fyddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn integreiddio gyda disgyblion eraill, o ystyried lefelau swm a phryderon o ran ysgogiadau?"** Eglurwyd bod disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau'r ysgol megis teithiau, gwasanaethau ac amser cinio ble y bo'n addas. Mae'r ymagwedd yn bwrpasol, gan sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu.

- **"Sut bydd cyfnodau pontio ar gyfer disgyblion ADY yn cael eu rheoli?"**
Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd disgyblion yn pontio o fewn yr un ysgol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, gan leihau aflonyddwch.
- Roedd pawb a oedd yn bresennol yn derbyn y byddai cael darpariaeth pob oed ar gyfer disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu ar yr un safle yn galluogi'r disgyblion i gadw'n gyfarwydd â'r staff, yr amgylchedd, a'r drefn arferol.
- **"A fydd y cynnydd mewn traffig yn effeithio ar weithrediadau'r ysgol?"**
Nodwyd bod modd i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu gyrraedd trwy gludiant a rennir, gan leihau nifer y cerbydau o bosibl. Soniwyd hefyd bod yr ysgol wedi rhoi gwelliannau ar waith i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â thraffig.
- **"Pa feini prawf sy'n pennu cael lleoliad yn y Dosbarth Cynnal Dysgu?"**
Eglurwyd bod lleoliadau yn seiliedig ar anghenion disgyblion unigol yn hytrach na meini prawf llym, heb unrhyw ofyniad am ddiagnosis o awtistiaeth. Mae'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion amrywiol, o ddisgyblion llafar i ddisgyblion cyn-llafaru.
- Mynegodd rhieni deimladau cadarnhaol ynghylch y cynigion, gan bwysleisio pwysigrwydd gan bwysleisio pwysigrwydd lleihau'r nifer o weithiau mae'n rhaid i ddisgyblion symud ysgol a chadw plant mewn cymunedau lleol.
- Codwyd pryderon am fylchau hanesyddol mewn hyfforddiant i athrawon ar awtistiaeth, a oedd yn effeithio ar ddeilliannau disgyblion.
- Mynegodd rhai rhieni rwystredigaeth mai dim ond pan fydd disgyblion yn cyrraedd pwynt o argyfwng y bydd darpariaeth ar gael yn aml, gan adael teuluoedd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu cefnogi. Cydnabuwyd y pryderon hyn, gydag esboniad, er bod heriau, bod Rhondda Cynon Taf yn cynnal 48 Dosbarth Cynnal Dysgu, sef y nifer uchaf yn y rhanbarth, ac yn parhau i agor darpariaethau newydd i ateb y galw. Nodwyd hefyd bod Rhondda Cynon Taf yn rhoi blaenoriaeth i gadw plant yn eu cymunedau, gan leihau pellteroedd teithio.
- Amlinellwyd y broses ymgynghori a'r amserlenni yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.
- Rhoddwyd sicrwydd i'r sawl a oedd yn bresennol o'r ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion trwy Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu integredig a chynhwysol.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profformâ Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Achlysuron Ymgynghori 2024 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Penyreglyn		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Penyreglyn		
Dyddiad:	13/11/2024	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	9
Nifer y Disgyblion:	8	Nifer y Rhieni:	2
Math o gyfarfod:	Cyngor Ysgol, Staff/Corff Llywodraethu, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr:	2
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter (LC), Kate Hill (KH), Iwan Griffiths (IG), Karen Pearson (KP).		
Cyngor Ysgol			
<ul style="list-style-type: none"> • Roedd pob un o'r 8 aelod o Gyngor yr Ysgol o flwyddyn 6. • Cyflwynwyd y cynnig, gan egluro sut olwg fyddai ar y dosbarth a phwysleisio y byddai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu cynnwys ochr yn ochr â disgyblion prif ffrwd yr ysgol. • Pan ofynnwyd iddyn nhw a oedd y cynnig yn dda, cytunodd holl aelodau o Gyngor yr Ysgol gan ddweud, "Mae ein hysgol yn synhwyrol iawn ac yn gwneud ein gorau bob amser." Cynigiodd swyddogion o Flwyddyn 6 gynorthwyo, yn enwedig yn ystod gwasanaethau, i ofalu am blant iau. • Trafodwyd y cynnig ymhellach, a gofynnwyd i'r aelodau a oedd unrhyw bryderon gyda nhw. Ymatebodd pob aelod nad oedden nhw'n pryderu. • Cyflwynwyd y rôl yn yr Awdurdod Lleol. • "Pa fath o weithgareddau byddan nhw'n eu gwneud?" Eglurwyd er y byddai'r plant efallai'n gwneud rhai gweithgareddau gyda'r dosbarth meithrin, mae gyda nhw anghenion penodol. Bydd modd i weithgareddau gynnwys defnyddio symbolau i gyfathrebu a dysgu ymddygiadau gan eu cyfoedion prif ffrwd pan fo'n briodol. • "A fydd y disgyblion yn aros ar gyfer y dosbarth meithrin ac yna'n symud i ysgol arall?" Eglurwyd y bydd y plant yn aros yn y dosbarth nes bod eu hanghenion yn cael eu hasesu, fel arfer ar ôl blwyddyn, a'r Panel Lleoli fydd yn penderfynu ar eu lleoliad nesaf. • "A fyddan nhw'n defnyddio'r un iard â'r dosbarth meithrin?" Eglurwyd tra bydd gan y dosbarth ei ardal awyr agored ei hun, bydd modd i ddisgyblion mwy galluog integreiddio gyda phrif iard y dosbarth meithrin dan oruchwyliaeth staff. • "Sawl aelod o staff fydd yna? A fydd ein hathrawon yn cael eu cynnwys yn rhan o bethau?" Dywedwyd y bydd un athro Dosbarth Cynnal Dysgu a 			

Chynorthwy-ydd Cynnal/Cymorth Dysgu, o bosibl dau. Bydd pennaeth yr ysgol yn penderfynu sut mae modd i staff gynorthwyo ar draws yr ysgol.

- **“A fydd angen addasu'r ystafell ddosbarth?”** Tynnwyd sylw at y ffaith bod y penderfyniad yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig. Os bydd angen, bydd addasiadau, megis ystafell hylendid, yn cael eu hariannu gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.
- **“A fyddan nhw'n defnyddio'r un toiledau?”** Eglurwyd efallai y bydd gan y plant eu toiledau eu hunain, gan y bydd yn bosibl y bydd angen cewynnau a gofal personol ar lawer ohonyn nhw.
- **“A fyddan nhw'n cael yr un amser cinio ac amser chwarae?”** Eglurwyd y bydd y trefniadau yn dibynnu ar anghenion y plant. I ddechrau, bydd modd bwyta prydau yn yr ystafell ddosbarth wrth iddyn nhw addasu i amgylchedd yr ysgol.
- **“Ai dim ond plant iau fydd yno?”** Cadarnhawyd y bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Penyreglyn yn darparu ar gyfer plant 3-5 oed, gyda darpariaethau ar wahân ar gael ar gyfer disgyblion hŷn mewn ysgolion eraill.
- **“Beth am ddisgyblion hŷn ag ADY?”** Disgrifiwyd bod y ddarpariaeth ehangach o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu ar draws Rhondda Cynon Taf yn cynnwys dosbarthiadau ar gyfer Anhwyldeira'u'r Sbectwm Awtistig, Anghenion Dysgu Cymhleth, Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, a rhagor.
- **“A fydd y disgyblion yma ar sail rhan amser?”** Cadarnhawyd y bydd disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu yma'n mynychu'n llawn amser.
- Fe wnaeth yr aelodau gydnabod efallai na fydden nhw'n gweld y disgyblion newydd wrth iddyn nhw bontio i'r ysgol uwchradd ond awgrymon nhw i drosglwyddo gwybodaeth i ddisgyblion Blwyddyn 5.
- Nodwyd y byddai modd paratoi disgyblion Blwyddyn 5 trwy etholiadau swyddogion ym mis Medi.
- Cynigiodd yr aelodau greu cyflwyniad ar gyfer gwasanaeth gan ddefnyddio'r Ddogfen Addas i Blant i egluro'r dosbarth newydd.
- Cafodd manteision y cynnig eu haildatgan, a thynnwyd sylw at baratodau dros yr haf i alinio â'r broses.

Staff / Corff Llywodraethu

- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- **“Beth fydd yn digwydd os na fydd staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn bresennol/yn hwyr?”** Yn achos absenoldebau staff, eglurwyd bod ysgolion fel arfer yn rheoli'r ddarpariaeth yn fewnol. Fel arfer mae tri aelod o staff yn dibynnu ar niferoedd yn y dosbarth er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion. Caiff absenoldebau eu hadrodd i'r awdurdod priodol, ac mae'r un polisi salwch yn berthnasol yn unol â chanllawiau Rhondda Cynon Taf. O ran iTrent a chyfweliadau dychwelyd i'r gwaith, cadarnhawyd bod y broses yn cael ei thrin yn briodol.
- **“Sut bydd hyn yn cyd-fynd â dulliau rheoli cyflawniad ein hysgol?”** Mae rheoli cyflawniad ar gyfer staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn ffitio i mewn i gylchred yr ysgol, gyda chymorth yn cael ei darparu gan y Gwasanaeth Cynnal

Dysgu. Cydnabuwyd gwahaniaethau mewn disgwyliadau oherwydd amgylchedd y dosbarth.

- **“A fyddai gan yr ysgol rywfaint o lais yn y broses gyflogi?”** Cadarnhawyd y byddai penaethiaid yn rhan o'r broses recriwtio ar gyfer staff y Dosbarth Cynnal Dysgu.
- **“A fydd y dosbarth a'r staff addysgu yn cael eu harolygu?”** Cadarnhawyd bod Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn destun arolygiadau ac arsylwadau gan yr Awdurdod Lleol. Bydd adroddiad Monitro a Sicrhau Ansawdd yn cynnwys arferion adfyfuriol, megis nodi llwyddiannau a meysydd i'w gwella.
- **“A fydd ein Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ysgrifennu'r Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer y disgyblion?”** Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd gan bob disgybl yn y Dosbarth Cynnal Dysgu Gynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol, gyda'r athro dosbarth yn gyfrifol am gyfarfodydd ac adolygiadau'r Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.
- **“A oes unrhyw siawns y gallai'r dosbarth newid yn y dyfodol o ddsbarth y Blynnyddoedd Cynnar i rywbeth arall yn seiliedig ar angen yn yr ardal leol?”** Eglurwyd nad yw dynodiad y dosbarth yn sefydlog ac y byddai modd iddo newid yn seiliedig ar anghenion disgyblion yn dilyn ymgynghoriad.
- **“Pa mor hir cyn y byddai modd i hyn ddigwydd?”** Mae newidiadau i ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn seiliedig ar ddadansoddiad data cadarn ar y cyd â charfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ac mae lefelau'r ddarpariaeth yn cael eu monitro'n gyson.
- **“Pe bai'r dosbarth yn cael ei symud, faint o rybudd fyddai gan yr ysgol?”** Nodwyd y byddai'r broses statudol ar gyfer symud Dosbarth Cynnal Dysgu o ysgol yn cymryd blwyddyn.
- **“Sut bydd y disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol?”** Bydd disgyblion yn cael eu cludo mewn tacsis yn bennaf, yn dibynnu ar eu hanghenion a'r polisi cludiant.
- **“Pa fathau o weithgareddau ysgol bydd modd i'r disgyblion ymuno â nhw?”** Bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i annog cynhwysiant, megis cymryd rhan mewn gwasanaethau a theithiau ysgol, yn seiliedig ar anghenion unigol.
- **“A fydd staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael yr un hyfforddiant y mae gweddill yr ysgol yn ei gael ar hyn o bryd, megis Team Teach?”** Bydd holl staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael hyfforddiant Team Teach. Bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei drefnu gan yr Awdurdod Lleol os nad ydy'r dyddiadau adnewyddu yn alinio. Pwysleisiwyd mynediad at adnoddau hyfforddi'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.
- **“A fyddai angen gwneud addasiadau i'r ystafelloedd dosbarth/mannau awyr agored er mwyn darparu ar gyfer y dosbarth newydd?”** Eglurwyd y byddai addasiadau ar gyfer y dosbarth newydd yn cael eu hystyried os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo. Bydd gwaith yn cael ei gydlynu gyda'r Garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, a'r ysgol.
- **“Pa fath o addasiadau fyddai'n cael eu gwneud a phryd fyddai hyn yn cael ei gynnal?”** Eglurwyd y byddai'r addasiadau yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen. Er enghraifft, byddai modd datblygu ystafell hylendid ac ystafell synhwyrdd os bernir bod hynny'n briodol. Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai gwaith adeiladu yn cael ei gynllunio ar gyfer yr haf a byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau cyn dechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Rhieni

- Roedd un rhiant lywodraethwr yn bresennol ynghyd â dau aelod o staff a oedd hefyd yn rhieni yn yr ysgol.
- Cyflwynwyd y gwasanaeth gan gynnwys cefndir ar y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Amlinellwyd y cynigion yn gyffredinol gan roi disgrifiad manylach o'r cynnig sy'n effeithio ar yr ysgol yma.
- Trafodwyd y broses ymgynghori yn fanwl gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses.
- Eglurwyd mai pwrpas y Dosbarth Cynnal Dysgu yw cael mynediad at a nodi anghenion plant, sydd efallai ddim wedi'u pennu yn yr ysgol eto. Eglurwyd y byddai modd i ddisgyblion aros yn y Dosbarth Cynnal Dysgu am hyd at ddwy flynedd a byddai modd iddyn nhw symud i Ddosbarth Cynnal Dysgu neu Ysgol Arbennig wahanol, yn dibynnu ar eu hanghenion.
- **"Faint o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd yn Rhondda Cynon Taf?"** Cafodd yr aelodau wybod bod 48 Dosbarth Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd ar gyfer dynodiadau amrywiol, gan gynnwys Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig, Byddardod, SPLANG, Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, ac Anawsterau Dysgu Cymhleth.
- **"Sut mae plant yn ymuno â'r dosbarth?"** Eglurwyd bod disgyblion fel arfer yn dod o'r ardal gyfagos, gyda cheisiadau am leoliadau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Lleol gan weithwyr proffesiynol. Mae penderfyniadau o ran lleoliad yn seiliedig ar angen ac agosrwydd. Cadarnhawyd y byddai rhai plant yn cael eu cludo mewn tacsi, wedi'i ariannu gan yr Awdurdod Lleol.
- **"Pa mor fawr fydd y dosbarth?"** Eglurwyd y bydd y dosbarth yn cynnwys 8-10 disgybl.
- **"Beth fydd yn digwydd os ydy'r athro yn absennol?"** Eglurwyd, os yw'r athro yn absennol, y byddai staff cymorth, sy'n gyfarwydd â threfn y dosbarth, yn atebol a byddai staff cyflenwi yn cael ei drefnu.
- **"A fydd angen gwneud newidiadau i'r ysgol ar gyfer y dosbarth?"** Eglurwyd y byddai'r Awdurdod Lleol, ar ôl i'r cynnig gael ei gymeradwyo, yn gweithio gyda Charfan Ysgolion yr 21ain Ganrif i benderfynu ar y lleoliad gorau a'r addasiadau sydd eu hangen ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu. Byddai modd i hyn gynnwys cyfleusterau fel ystafell synhwyrdd, ystafell hylendid, mannau chwarae awyr agored, a thoiledau i adlewyrchu'r dosbarth meithrin. Byddai'r holl addasiadau ac adnoddau angenrheidiol yn cael eu hariannu gan yr Awdurdod Lleol.
- **"Pryd bydd y broses benodi yn cychwyn?"** Cadarnhawyd y byddai recriwtio'n dechrau ar ôl i'r cynnig gael ei gymeradwyo. Bydd y swyddi yn agored i bob ymgeisydd, gan gynnwys staff presennol, a bydd pob ymgeisydd yn cael ei drin yn gyfartal. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol i staff sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol symud os yw'r dosbarth yn symud i ysgol arall.
- **"A fydd hyn yn effeithio ar gapasiti uchaf yr ysgol?"** Pennwyd na fydd capasiti yr ysgol yn newid o ganlyniad i'r Dosbarth Cynnal Dysgu. Cafodd yr aelodau wybod bod capasiti a niferoedd a ragwelir yn cael eu plotio gyda mewnbwn gan Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif. Pe bai cynnydd yn nifer y disgyblion yn digwydd, byddai modd adolygu lleoliad y dosbarth a'i addasu yn unol â hynny.

- **“A fydd disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn effeithio ar ddata presenoldeb?”** Caiff disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu eu cofrestru ar wahân i'r ysgol, a chaiff presenoldeb ac absenoldebau eu holrhain yn rhan o ddata'r ysgol.
- **“A fydd y dosbarth ar gyfer disgyblion hŷn hefyd?”** Eglurwyd bod y dosbarth yn darparu ar gyfer plant 3-4 oed, gyda lleoliad yn bosibl mor hen â phump oed. Yn dilyn eu hamser yn y Dosbarth Cynnal Dysgu, byddai disgyblion yn dychwelyd i'r Panel Lleoli i benderfynu ar y lleoliad priodol nesaf - byddai modd i hyn fod yn Ddosbarth Cynnal Dysgu arall, yn ysgol prif ffrwd neu'n Ysgol Arbennig.
- Cafodd y sawl a oedd yn bresennol eu hannog i rannu adborth drwy'r Profform Ymateb i'r Ymgynghoriad ar wefan Rhondda Cynon Taf neu drwy sganio'r cod QR a ddarparwyd.

Ymateb Estyn i'r cynnig i wella darpariaeth cynnal dysgu anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn dim ond yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn cynnig mynd i'r afael â phwysau o ran capasiti yn gysylltiedig â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Maent yn cynnig datblygu darpariaethau newydd a fydd mewn grym o Fedi 2025 ymlaen, gan gynnwys:

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu Ymyrraeth y Blynyddoedd Cynnar i ddisgyblion o dan oedran ysgol statudol **sydd ag** anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Cwmaman
- Un Dosbarth Cynnal Dysgu Ymyrraeth y Blynyddoedd Cynnar i ddisgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Penyreglyn
- Un Dosbarth Cynnal Dysgu i ddisgyblion Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 2 gydag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) yn Ysgol Gynradd Hirwaun
- Un ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7-11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

O Fedi 2025, maent yn cynnig symud y Dosbarth Cynnal Dysgu i ddisgyblion Blynyddoedd 3-6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) o Ysgol Gynradd Penywaun i Ysgol Gynradd Hirwaun i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd.

Mae RhCT yn ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Byddant yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori mewn ysgolion ar draws y dalgyrch i gynghorau ysgol, rhieni a chyrrff llywodraethol fynd iddynt.

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynnig manwl hwn yn amlinellu cynlluniau RhCT yn glir i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth i rai o'r disgyblion mwyaf bregus ag angen dysgu ychwanegol ar draws yr awdurdod lleol. Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o leiaf gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae RhCT yn amlinellu sail resymegol glir ar gyfer y cynnig. Yn dilyn dadansoddiad data manwl, maent yn datgan eu bod wedi nodi bod angen mynd i'r afael â'r bwch presennol yn y ddarpariaeth i ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth, y Blynyddoedd Cynnar, Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / ASD i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cydymffurfio a'r ddyletswydd ADY ddeddfwriaethol newydd. Dywedant y bydd y cynnig yn:

- gwella darpariaeth bresennol y cyfnod sylfaen i gyfateb i broffil anghenion presennol plant ag ADY, lleihau nifer y trosglwyddiadau rhwng lleoliadau i rai o'r disgyblion mwyaf bregus
- bydd yn gwella darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i fodloni'r galw cynyddol am ymyrraeth gynnar a gwella darpariaeth y Cyfnod Uwchradd i fodloni anghenion disgyblion hŷn sydd angen cymorth â'u dysgu.

Hefyd, mae RhCT wedi cyflwyno eu sail resymegol yn glir ar gyfer symud y Dosbarth Cynnal Dysgu i Ysgol Gynradd Hirwaun o Fedi 2025 ymlaen, gan gynnwys:

- adeilad newydd mwy hygyrch, gyda chyfarpar gwell, sy'n bodloni ystod anghenion disgyblion yn well, gan felly gydymffurfio'n well a Deddf Cydraddoldeb 2010
- parhad i ddisgyblion ADY yn eu lleoliadau addysgol.

Mae RhCT wedi darparu disgrifiad manwl o'r cynnig ac wedi amlinellu amserlen ar gyfer gweithdrefnau statudol. Ymddengys fod RhCT yn cyflwyno manteision disgwylidig y cynnig yn glir, gan gynnwys lleoli darpariaeth arbenigol o fewn lleoliadau prif ffrwd a fydd yn cynyddu'r cyfleoedd am gynhwysiant, gan wella safonau a deilliannau addysgol i rai o'r disgyblion mwyaf bregus. Maent yn datgan y bydd hyn yn gwella'u cyfleoedd bywyd, mynediad i fyd gwaith a llwybrau addysg eraill trwy sicrhau bod y darpariaethau wedi'u paru'n dda ag anghenion disgyblion. Mae RhCT hefyd yn datgan y bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod disgyblion ag ADY yn gallu manteisio ar yr adnoddau gorau posibl a byddant yn cael continwwm darpariaeth tecach. Mae RhCT yn datgan yn glir yn y cynnig y bydd yr awdurdod lleol yn talu unrhyw gostau teithio ychwanegol, er enghraifft o Benywaun i Hirwaun. Mae'r cynnig yn cyflwyno llawer o'r risgiau a allai effeithio ar yr ysgolion cynnal newydd a sut bydd yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r rhain yn glir, gan gynnwys darparu cymorth parhaus i benaethiaid o ran rheolaeth llinell ar

y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth dysgu yn cael ei adolygu'n barhaus.

Hefyd, mae'r cynnig yn datgan sut bydd staff Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a gyflogir yn ganolog ac undebau llafar yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau a wneir. Mae RhCT wedi cyflwyno rhai o'r anfanteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r camau lliniarol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae rhai o'r anfanteision a godwyd yn cynnwys y bydd rhaid i rai disgyblion sy'n mynd i Ddosbarth Cynnal Dysgu Penywaun a staff sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd Penywaun ar hyn o bryd deithio ymhellach i'r safle newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Fodd bynnag, er bod y cynnig yn datgan y bydd RhCT yn talu costau teithio ychwanegol, bach iawn o wybodaeth sydd yn y cynnig sy'n amlygu'r effaith bosibl y gallai teithio ychwanegol ei chael ar les disgyblion bregus. Er bod y cynnig yn datgan y bydd RhCT yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr i roi cynlluniau pontio trylwyr ar waith i symud disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun, bach iawn o fanylion sydd am beth fydd y cynlluniau pontio hyn yn ei gynnwys.

Mae'r cynnig yn amlinellu'r opsiynau yn lle'r cynnig yn glir, gan gynnwys cadw'r sefyllfa sydd ohoni. Mae'n rhoi rhesymau manwl ynghylch pam nad yw'r rhain wedi cael eu hystyried ymhellach. Mae'r cynnig wedi rhoi manylion am unrhyw leoedd dros ben amcangyfrifedig yn effeithiol a rhesymau digonol dros hyn.

Mae RhCT wedi ystyried gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob un o'r ysgolion y bydd effaith debygol arnynt ac ansawdd arweinyddiaeth yr ysgolion. Mae RhCT wedi darparu asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r cynnig. Mae RhCT wedi darparu asesiad effaith ar y gymuned fel rhan o'r cynnig. Mae RhCT yn amlinellu costau ariannol y cynnig yn fras; fodd bynnag, bach iawn o fanylion sy'n cael eu rhoi.

Mae RhCT wedi darparu asesiad effaith ar y gymuned fel rhan o'r cynnig.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn o'r ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig ac ansawdd yr arweinyddiaeth yn yr ysgolion hynny.

Ymddengys fod RhCT wedi mynd i'r afael â'r effaith a gaiff y cynnig ar safonau dysgu a lles ac agweddau disgyblion at ddysgu. Mae'n datgan y bydd disgyblion yn gallu manteisio ar ddarpariaeth dysgu ychwanegol a fydd yn gwella cynnydd disgyblion o ran eu targedau a'u manau cychwyn unigol. Mae'n datgan y bydd gallu manteisio ar amgylcheddau dysgu'r 21^{ain} ganrif yn cael effaith uniongyrchol ar les disgyblion a staff.

O ran yr effaith ar brofiadau Dysgu ac Addysgu, mae'r cynnig yn datgan y bydd pob Dosbarth Cynnal Dysgu yn darparu cwricwlwm cytbwys ym mhob cyfnod yn unol â Chwricwlwm i Gymru. Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn darparu amrywiaeth o strategaethau ac ymyriadau i fodloni anghenion disgyblion unigol ag anawsterau sylweddol, a byddant yn gallu cael at amrywiaeth eang o adnoddau amlsynhwyraidd a digidol i wella'u dysgu.

Mae'r cynnig yn datgan y bydd Gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn cael ei fodloni'n effeithiol trwy ffocws cadarn ar gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion a chyfleoedd i gydweithredu â chymheiriaid prif ffrwd yn yr ysgolion prif ffrwd sy'n cynnal y dosbarth. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i gael at weithgareddau yn eu cymuned leol. Cefnogir disgyblion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i annog ffyrdd iach o fyw a meithrin disgyblion.

Mae RhCT yn datgan mai Pennaeth yr ysgol sy'n cynnal y dosbarth a Chydlynwyr Gwasanaethau Cynnal Dysgwyr yn y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant fydd yn arwain ac yn rheoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar y cyd i sicrhau bod disgwyliadau uchel i ddisgyblion yn cael eu cyflawni. Yn ategu hyn y mae proses sicrhau ansawdd gynhwysfawr a chytundeb Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Ysgolion / yr ALI sy'n amlinellu priod rolau a chyfrifoldebau'r ALI, yr ysgolion cynnal a staff y Dosbarth Cynnal Dysgu.

Atodiad 4

Copïau o'r ohebiaeth a dderbyniwyd.